Ann Griffiths, 1776–1805
Emynyddes

Ganed Ann Thomas ym mis Ebrill 1776 yn ffermdy Dolwar-fach, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Trefaldwyn. Yr oedd ei thad, John Thomas, yn dyddynnwr mawr ei barch yn yr ardal a feddai ryw gymaint o ddawn barddoni, a byddai ef a'i wraig Jane a'r teulu yn mynychu eglwys y plwyf. Yn ystod ei hieuenctid yr oedd Ann yn hoff o ysgafnder, cloncian a mynychu dawnsfeydd, ond newidiodd hynny ym 1796 pan ddaeth o dan ddylanwad Benjamin Jones, Pwllheli, wrth iddo bregethu'r Efengyl. Yr oedd wedi bwriadu mynd i ddawns yn Llanfyllin ond fe'i gwahoddwyd gan ferch ifanc a oedd yn ei hadnabod i fynd i gapel yr Annibynwyr i wrando ar Benjamin Jones. Ni bu ei bywyd byth yr un fath wedyn oherwydd yno fe gafodd dröedigaeth a rhoddodd ei bywyd i'w Gwaredwr, Iesu Grist.

O ganlyniad fe ymunodd â'r seiat Fethodistaidd ym Mhontrobert ym 1797 a daeth yn gyfaill i John Hughes a oedd yn athro ac yn bregethwr ac a ddaeth yn athro ysbrydol iddi hithau. Yn fuan sylweddolwyd ei bod yn wraig o allu anghyffredin. Dywedodd Morris Davies amdani ym 1865, 'Yr oedd goleuni a gwres yn ei chrefydd hi. Nid gwres heb oleuni, na goleuni heb wres; ond y ddau gyda'i gilydd.' Ym 1804 priododd â ffermwr o Meifod o'r enw Thomas Griffiths, brawd y Parch. Evan Griffiths, Ceunant. Rhyw ddeng mis ar ôl y briodas ganwyd merch fach iddynt ond bu farw'n bythefnos oed, a phythefnos yn ddiweddarach bu farw Ann ym mis Awst 1805 yn 29 oed. Claddwyd ei gweddillion yn Llanfihangel ar 12 Awst 1805. Bu farw ei gŵr yn yr un mis.

Ar ddydd ei chladdedigaeth ymgasglodd torf fawr ynghyd a thraddodwyd pregeth gan Thomas Owen, y Bala, ar Colosiaid 3:4. Gadawodd ar ei hôl rai o'r emynau Cristnogol mwyaf ysbrydoledig a gyfansoddwyd mewn unrhyw iaith ac y mae'n dipyn o ryfeddod fod yr emynau hyn wedi goroesi gan nad oedd wedi eu rhoi ar gof a chadw. Roedd gan Ann forwyn o'r enw Ruth Evans a byddai'n adrodd ei hemynau wrthi hi'n fynych, a dysgodd Ruth lawer o'r

penillion ar ei chof. Yn ddiweddarach priododd Ruth â John Hughes, Pontrobert, ac fe gofnododd yntau'r emynau mewn dau lyfr. Rhoddodd John Hughes gopi i Thomas Charles o'r Bala ac fe'i cyhoeddwyd yn gyntaf yn argraffiad 1805 o *Grawn-Sypiau Canaan* ac yna'r flwyddyn ddilynol yn *Casgliad o Hymnau*. Cyhoeddwyd hwy droeon mewn nifer o lyfrau yn ystod y blynyddoedd dilynol, ond ym 1905 cyhoeddodd O.M. Edwards lyfr yn dwyn y teitl *Gwaith Ann Griffiths* oedd yn cynnwys testun gwreiddiol ei hemynau.

Adlewyrcha ei hemynau ddeallusrwydd mawr, gwybodaeth Feiblaidd eang a dealltwriaeth ysbrydol ddofn, ac y mae ei mynegiant o elfennau pwysig y ffydd Gristnogol yn aml yn gwbl ysgubol. Dyma ran o un o'i hemynau sy'n mynegi'n odidog ddirgelwch ymgnawdoliad Iesu Grist:

O! am gael ffydd i edrych
Gyda'r angylion fry
I drefn yr iechydwriaeth,
Dirgelwch ynddi sy;
Dwy natur mewn un Person
Yn anwahanol mwy,
Mewn purdeb heb gymysgu,
Yn berffaith hollol trwy.

O! f'enaid, gwêl addasrwydd
Y Person dwyfol hwn,
Mentra arno'th fywyd
A bwrw arno'th bwn;
Mae'n ddyn i gydymdeimlo
Â'th holl wendidau i gyd,
Mae'n Dduw i gario'r orsedd
Ar ddiafol, cnawd, a byd.